

EVANS, WILLIAM (?- 1718), pregethwr Ymneilltuol ac athro academi

Enw: William Evans

Dyddiad marw: 1718

Rhyw: Gwryw

Galwedigaeth: pregethwr Ymneilltuol ac athro academi

Maes gweithgaredd: Crefydd; Addysg

Awdur: Thomas Richards

dyddiad ei eni'n anhysbys. Ymfalchïai fod yn ddisgybl i'r Gamaliel parchedig **Rhys Prydderch** o Ystrad Walter; daeth â *Gemau Doethineb* ei athro drwy'r wasg yn 1714 (amryw argraffiadau o'r *Gemau*, un mor ddiweddar â 1937). Ordeiniwyd ef fel Annibynnwr yn 1688, i gyflawni gwaith gweinidog ym Mhencader; main iawn oedd y gydnabyddiaeth yno, ond bu arian ei wraig o gryn gymorth iddo, a'r tâl a enillai fel athro i ysgol fechan a gadwai. Yn 1702-3 mudodd o Bencader i dref Caerfyrddin i arolygu achosion yr Annibynwyr yn yr ardal honno, cadw ysgol o dan nawdd y S.P.C.K., a gweithredu fel athro ar ddynion ieuainc â'u golwg ar y weinidogaeth; cadwodd gyswllt clos gyda'r hen ddiadell ym Mhencader, a llwyddodd i sicrhau capel eglwysig Llanybri i fod yn fan addoli i Annibynwyr. Trwythodd ddisgyblion yr academi yn syniadau Calfin (cofier bod yr academi hon yn llinach ysgolion Brynlllywarch a'r Fenni), a gofodd eu bod hwy a'i braidd ym Mhencader a Chaerfyrddin yn drwyadl gydnabyddus â *Chatecism Byrraf Cymanfa Westminster*; yn wir, cyfieithodd William Evans y *Catecism* i'r Gymraeg a'i gyhoeddi yn 1707; y mae prawf hefyd iddo ysgrifennu rhagair (dyddiedig 24 Mehefin 1716) i argraffiad arall o'r un *Catecism*, a gyhoeddwyd i ddechrau gan **Matthew Henry** yn 1702, ac a droswyd i'r Gymraeg gan **James Davies** ('Iaco ap Dewi'). Disgrifid Evans gan **Jeremy Owen** fel rhodd yr Arglwydd i'r bobl.

Awdur

Thomas Richards, (1878 - 1962)

Ffynonellau

Llawysgrif o eiddo'r Presbyterian Board, a gyhoeddwyd gan Alexander Gordon dan y teitl Freedom after Ejection. A Review (1690â€"1692) of Presbyterian and Congregational Nonconformity in England and Wales, 1917, 144, 260

A History of Carmarthenshire, ii, 158-62

W. Rowlands, *Llyfryddiaeth y Cymry* (Llanidloes 1869), 281, 300, 314

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q8008692

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.



Arddull APA



Richards, T., (1953). EVANS, WILLIAM (?- 1718), pregethwr Ymneilltuol ac athro academi. *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 11 Tac 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/c-EVAN-WIL-1718>

Clippwr

LGC
NLW

LLYFRGEL
THE NATION



Ysgrifeddiadau
Llywodraeth Cymru
Copied by
Welsh Government